Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Harlech

**Ysgol Tanycastell**
**Ffordd y Nant**
**Harlech**
**LL46 2UE**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Harlech

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Harlech |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Rhian Corps ac Annwen Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Catrin White |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 6 (4 o rhain yn Meithrin Mwy) |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 09:00-15:00 Llun i Gwener (tymor ysgol) |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 25/05/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 16/04/2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 08/02/2023 |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae hyn yn cael ei adnabod fel maes i'w wella, a dylai'r Person Cofrestredig roddi sylw iddo.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu holl fedrau yn yr ardal allanol

A2 Mynd i'r afael â'r mater o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolwg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn cael cyfleoedd buddiol i leisio eu barn. Er enghraifft, maent yn trafod teganau ac yn mynegi barn am eu hoff rai. Cânt eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu dysgu a'u chwarae gan gynnwys creu ardal byd bach dinosoriaid mewn ymateb i'w ceisiadau. Mae'r plant yn gwybod caiff eu teimladau eu hystyried yn gyson. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn ymateb yn synhwyrol i deimladau'r plant wrth iddynt ganu am 'sut wyt ti?'.

Mae rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu'n llwyddiannus ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent wedi datblygu perthynas agos gyda'r ymarferwyr ac yn barod i sgwrsio'n anffurfiol ag ymwelwyr. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos cerbyd a thrafod newid yr olwyn. Maent yn cyfarch ei gilydd yn gyfeillgar ac yn mynd yn syth i gyd-chwarae'n hapus yn yr ardaloedd. Mae bron bob un yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n rhwydd â'r gweithdrefnau, sy'n creu sicrwydd iddynt wrth ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda iawn ac yn chwarae'n llwyddiannus yn annibynnol. Maent yn dechrau cyd-chwarae yn effeithiol, er enghraifft, mae dau blentyn yn trafod ac yn penderfynu mynd i'r babell i chwarae rôl ac i edrych ar lyfr gyda'i gilydd. Trwy gydol eu gweithgareddau chwarae, mae'r rhan fwyaf yn ymgysylltu'n llawn, ac yn dangos parch at eu teganau, yr adnoddau ac at ei gilydd. Yn ystod sesiwn grŵp, maent yn eistedd yn drefnus, yn gwrando ar eraill ac yn aros eu tro yn amyneddgar. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu eu sgiliau cymdeithasol yn dda.

Mae rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn cael llawer o hwyl wrth chwarae cuddio. Maent wrth eu bodd yn dweud '*bw*' ac yn chwerthin yn llon ar ôl gwneud. Mae llawer o blant yn ymateb yn llawn cyffro wrth chwarae yn yr ardal allanol. Maent yn defnyddio'r offer ac yn datblygu eu sgiliau corfforol wrth iddynt gydbwyso a theithio ar hyd llwybr o bontydd pren. Ar ôl cyrraedd y diwedd, maent yn dangos cryn falchder yn eu cyflawniad.

Mae rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda. Ar ôl cyrraedd yn y bore, maent yn gosod eu potel ddŵr ar eu llun. Yn ystod y bore maent yn helpu eu hunain i ddiod ac yn penderfynu pryd i fwyta eu byrbryd. Mae bron bob un yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal i'r llall gan gynnwys yr ardal allanol. Maent yn cymryd cyfrifoldeb dros helpu i lanhau ac am eu hylendid personol. Er enghraifft, maent yn golchi dwylo o dan gyfarwyddyd ar ôl bod i'r tŷ bach neu ar ôl newid clwt.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae’r ymarferwyr yn canolbwyntio’n barhaus ar gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau'n dda iawn ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol er mwyn cadw’r plant yn ddiogel. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ganddynt ac maent yn sicrhau fod adnoddau pwrpasol ar gael. Nid ydynt wedi cael achos i weinyddu meddyginiaeth ond mae ganddynt bolisi addas a ffurflenni cywir i gofnodi os oes angen. Mae’r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol ar gyfer cofnodi damweiniau ac anafiadau. Maent yn gweithredu systemau asesu risg ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol effeithiol i adnabod a lleihau risgau. Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo arferion da i sicrhau bod y plant yn cadw’n iach ac yn annog arferion bwyta iach. Mae’r holl ymarferwyr yn hyderus ar sut i weithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch plentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ymarferwyr yn dilyn y polisi ymddygiad ac yn gosod esiampl dda o ymddygiad cadarnhaol drwy fanteisio ar bob cyfle i ganmol y plant. Er enghraifft, rhoddir anogaeth a chlod cyson i blant am geisio gwisgo eu hunain. Mae ganddynt berthynas agos a chynnes gyda’r plant ac maent yn eu trin gyda gofal a pharch. O ganlyniad, mae hyn yn cymell y plant i ymddwyn yn dda. Gwneir defnydd pwrpasol o strategaethau i ddelio ag unrhyw deimlad o rwystredigaeth a gwrthdaro ymhlith y plant. Maent yn cynnig cysur lle bod angen ond yn fedrus wrth gefnogi’r plant i reoli eu teimladau ac ymuno mewn gweithgareddau.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn parchu eu dymuniadau a’u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb i geisiadau plant i wrando ar stori. Maent yn parchu dewisiadau’r plant ac yn gadael iddynt ddewis eu trywydd eu hunain. Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Maent hefyd yn datblygu eu dealltwriaeth o ddathliadau fel Santes Dwynwen ac o bwysigrwydd gwaith elusennol drwy godi arian. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod gan y plant ddealltwriaeth fuddiol o gynaliadwyedd ac ailgylchu trwy ddarparu profiadau bywyd go iawn iddynt. Mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigolion yn dda ac yn cyfeirio plant yn briodol pan fod angen.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae addysgu’r ymarferwyr yn cefnogi’r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau defnyddiol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Mae’r ymarferwyr yn gweithredu’n gydwybodol er lles y plant. Maent yn darparu cyfleoedd effeithiol i ennyn diddordeb y plant trwy gynnig heriau pwrpasol, fel trin gwallt doliau a phlannu blodau yn yr ardal arddio.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm cyflawn ac yn cynllunio profiadau buddiol ac amrywiol ar gyfer y plant tu mewn a thu allan i’r adeilad. Er enghraifft, mae cyfleoedd ar gael i ddatrys problemau trwy adeiladu tyrau gyda siapiau tri-dimensiwn ac i lifo dŵr lawr cafnau i gyrraedd bowlenni priodol.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant, yn enwedig tu mewn i’r adeilad. O ganlyniad, mae addysgu’r ymarferwyr yn herio’r plant i wneud marciau ar glipfyrddau yn yr ardal gartref a didoli a rhifo ceir, llestri a chytleri yn fwriadus. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr pob tro

yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddatblygu eu holl fedrau yn effeithiol yn yr ardal allanol.

Mae’r ymarferwyr yn canolbwyntio’n dda ar wella Cymraeg y plant trwy ailadrodd geirfa ac ymadroddion, a chanu caneuon bywiog. Mae’r ymarferwyr yn holi’r plant yn rheolaidd, sy’n effeithio’n gadarn ar wella’u medrau gwybyddol a’u hawydd i fentro. Maent yn manteisio ar sgyrsiau pwrpasol i arsylwi ac asesu cynnydd a chyflawniad y plant, gan ddefnyddio’u canfyddiadau’n briodol i gynllunio’r camau nesaf yn eu dysgu. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau, sy’n cefnogi dysgu annibynnol da ymysg y plant.

Mae’r ddarpariaeth i ddatblygu medrau digidol y plant yn cynnig heriau cyson i wella eu medrau, fel rheoli cerbydau electronig a defnyddio apiau ar gyfrifiadur llechen. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn eu cymell i gydweithredu'n effeithiol trwy ganolbwyntio ar ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol. Er enghraifft, maent yn eu hannog i gropian trwy dwneli, printio patrymau lliwgar gyda’u dwylo a chwarae rôl.

Mae pwyslais cadarnhaol gan ymarferwyr ar ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chanu rhigymau traddodiadol yn rheolaidd. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus trwy ddarllen storïau am brofiadau eraill ledled y byd ac astudio arferion fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae’r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant. Gwneir hyn trwy gyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar a llyfryn cynnydd, sydd ar gael yn ystod ac ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad. Mae trefniadau trosglwyddo plant yn gadarn.

**Yr amgylchedd:**

Mae’r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn gwirio a chadw’r amgylchedd yn ddiogel.  Cedwir cofnod manwl o ymwelwyr ac mae gan y lleoliad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys. Mae’r ymarferwyr yn ymarfer driliau tân er mwyn i’r plant ymgyfarwyddo â’r trefniadau hyn. Maent yn rhoi blaenoriaeth i asesu risgiau yn yr holl ardaloedd yn ogystal â gweithgareddau penodol. Mae’r ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda ar draws holl ardaloedd y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau awyrgylch gyfeillgar a chartrefol. Maent yn hyrwyddo hyn trwy arddangos gwaith celf y plant a’u ffotograffau. Er enghraifft, mae coeden deuluol y plant yn cymryd lle blaenllaw ac mae’r plant wrth eu bodd yn cyfeirio ati. Mae’r ymarferwyr yn ymateb i ddatblygiad unigolion trwy arddangos eu penblwyddi a lluniau o’u hanturiaethau adref gyda thegan arbennig y cylch, Doti. Mae’r plant wrth eu bodd yn cyfeirio atynt, ac, o ganlyniad mae hyn yn cyfrannu at yr ymdeimlad o berthyn ymysg y plant.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau ansawdd amgylchedd da. Mae’r ymarferwyr yn trefnu’r ardaloedd chwarae a dysgu yn fwriadus. Er enghraifft, mae cyfleodd i blant dyfu llysiau ac yn yna i’w gwerthu yn y siop chwarae rôl gyfagos. Cedwir adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol. O ganlyniad, mae’r plant yn dechrau dod yn gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i’r mannau priodol ac i ymchwilio drostynt eu hunain. Mae’r arweinwyr wedi datblygu’r

adnoddau yn yr ardal allanol ac yn sicrhau bod plant yn cael mynediad llawn i'r ardal ym mhob tywydd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn parchu preifatrwydd plant ac yn cynnig cyfleoedd iddynt ddatblygu sgiliau annibynnol. Mae'r arweinwyr yn darparu ystod dda o adnoddau pwrpasol er mwyn addysgu plant am y byd o'u cwmpas ac am y gymdeithas ehangach.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau arwain y lleoliad yn effeithiol ac maent yn canolbwyntio'n bwrpasol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae eu gweledigaeth yn glir ac maent yn hybu cydweithio bwriadus ymysg yr ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm i gefnogi dysgu a datblygiad y plant yn dda.

Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol. Maent yn gosod disgwyliadau synhwyrol i'w gilydd ac i'r ymarferwyr trwy brosesau rheoli perfformiad trwyadl. O ganlyniad, mae arweinwyr yn cefnogi'r ymarferwyr i gynnal safonau uchel ac i weithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r arweinwyr yn galluogi'r ymarferwyr i fynychu hyfforddiant priodol i wella'u medrau a'u harferion gofal. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn gydwybodol, yn awyddus i lwyddo ac i weithredu ar gyngor gan arweinwyr ac asiantaethau cefnogi.

Mae'r arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol, sy'n arwain at dargedau dilys ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella yn dda. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar ddefnyddio'r ardal leol a thref Harlech yn well, i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr bob amser yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am ddigwyddiadau a newidiadau penodol o fewn y terfynau amser cywir.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau effeithiol gyda'r holl randdeiliaid, fel yr asiantaethau cefnogi, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gweithredu ar gyngor i ddatblygu'r arferion cynllunio ac asesu, er mwyn dilyn diddordebau'r plant yn well. Yn ogystal, maent yn cynnal trafodaethau cyson gyda'r rhieni a'r gofalwyr trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chynnal sgyrsiau wrth y giât yn ystyrlon.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau gofal bugeiliol llwyddiannus i'r plant. Mae'r berthynas gynhyrchiol â'r ysgol yn paratoi'r plant tuag at y cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r arweinwyr wedi ffurfio ystod o bartneriaethau cadarn yn lleol, sy'n cynnig profiadau difyr i'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn mynychu'r caffi cyfagos ac ymweld â'r goedwig a chastell y dref.

Mae'r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n llwyddiannus. Maent yn gwneud defnydd da o grantiau er mwyn cynnal yr adeilad a sicrhau darpariaeth bwrpasol, fel adnewyddu lloriau'r lleoliad. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn ddoeth, fel y sied ddarllen a'r ardal synhwyraidd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | The registered person must ensure all relevant notifications are made to Care Inspectorate Wales within the required timescales. | Newydd |
| 15 (4) (b) | Regulation 15 of the Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010 – the registered persons must present us with an updated copy of the service's statement of purpose noting the new hours of opening. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete